# Huw Williams yn sôn am Y Cerddor Mawr o'r Bala

Un o gerddorion prysuraf y Bala yn y ganrif ddiwethaf oedd Rowland Huw Prichard (y ffurf heb y 'T'!) (1811-87), brodor o'r Graienyn ym mhlwyf Llangywer, ac awdur yr emyn-dôn 'Hyfrydol' a gaiff ei harddel hyd heddiw gan bron bob enwad crefyddol yng Nghymru a Lloegr (heb sôn am wledydd dros y dŵr), a hynny dros ganrif a hanner ar ôl ei chyhoeddi am y tro cyntaf.

Roedd R.H.P. yn ŵyr i'r bardd Rowland Huw (1714-1802), awdur 'Marwnad Rhys Morys', cerdd y gwelwyd ynddi ddigon o rinwedd i'w chynnwys ym *Mlodeugerdd Cymry* (1779), a thrachefn gan W.J. Gruffydd yn *Y Flodeugerdd Gymraeg* (1931), a Thomas Parry yn *The Oxford Book of Welsh Verse* (1962).

Dysgodd R.H.P. gerddoriaeth yn ieuanc iawn, a bu'n llafurus gyda cherddoriaeth, yn arbennig gerddoriaeth gysegredig, gan gyflwyno dulliau o ddysgu cerddoriaeth i blant a oedd yn arbrofol, a hefyd arloesi ym maes canu cynulleidfaol y genedl.

Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, a gŵr a fyddai'n manteisio ar bob cyfle i ymffrostio ei fod wedi cael ei fedyddio gan neb llai na 'Charles o'r Bala'. Bu am rai blynyddoedd yn bencantwr Capel Bethel, neu Gapel Mawr y Bala, a bu ar un adeg hefyd yn codi canu yn Sasiwn y Bala, pryd yr ystyrid y canu mor rhagorol fel y cyfeiriai cerddorion o siroedd eraill y gogledd yn aml at ei safon.

Fel amryw o gerddorion eraill ei oes, a gredai mai dim ond y gorau a wnâi'r tro fel cyfrwng mawl, a llwyddo i ddringo i'r brig fel cerddorion y cysegr, nid oedd R.H.P. bob amser yn ŵr hawdd ei drin. Ar gwestiwn o arwain neu o ddehongli, byddai'n aml yn croesi cleddyfau â rhai o'i gyd-gerddorion, ac nid syndod yw deall fod Andronicus yn ei *Adgofion* (Caernarfon 1894) yn ei ystyried fel 'un *touchy*'!

Yn ogystal â bod yn weithgar fel aelod eglwysig yn y Bala, roedd R.H.P. hefyd yn arwain y canu yn y cyfarfod cyntaf o Undeb Cerddorol (anenwadol) y Bala, a gynhaliwyd ar Ebrill 15, 1845, ac yntau ar y pryd yn ŵr ieuanc 34 oed. Roedd sefydlu'r Gymdeithas hon — a'i thebyg — yn gam pwysig iawn yn natblygiad caniadaeth grefyddol y genedl, ac yn anrhydedd i ŵr mor ieuanc ag ef i fod yn gysylltiedig â hi. Ond cyn sefydlu'r Gymdeithas yn y Bala, roedd R.H.P. eisoes wedi cyfansoddi'r dôn 'Hyfrydol' (yn ŵr ugain oed yn ôl rhai ffynonellau), a hefyd yn eithaf adnabyddus fel cerddor. Yn ogystal â'i brysurdeb yn cyhoeddi ambell waith cerddorol a ddaeth ag ef i amlygrwydd, roedd hefyd yn ŵr busnes, a chanddo fanc preifat, ac yn ôl tystiolaeth Rhisiart Ddu o Wynedd (a fu'n lletya am gyfnod ar ei aelwyd yn Stryd Fawr, Y Bala) fe'i hystyrid gan ei gyd-ddynion fel 'dyn cyfrifol'.

Cysylltir enw R.H.P. erbyn heddiw â dwy gymwynas gerddorol a gyflawnodd â'i genedl, a hynny mewn cyfnod pan oedd safon cerddoriaeth y genedl yn bur isel, a phan oedd hi'n anodd iawn i Gymro uniaith feistroli elfennau cerddoriaeth, ac i ddewis alawon addas ar gyfer yr addoliad cyhoeddus.

Un o'r cymwynasau hynny oedd darparu'r *Cyfaill i'r Cantorion*, sef 'casgliad o donau hawdd ar wahanol achosion' (tt.36), wedi ei argraffu yn Llanidloes gan John Mendus Jones, a'i gyhoeddi ym 1844. Fe gynnwys y llyfryn hwn, a ddarparwyd at wasanaeth yr Ysgol Sul (gyda'r bwriad o ennill llawer oddi wrth 'ganeuon gwag a llygredig') 39 o donau a thair anthem (y mwyafrif o'r tonau o waith yr awdur ei hun). Ceir geiriau ar gyfer pob tôn, ynghyd â chyfarwyddiadau pa le i'w canu. Yma am y tro cyntaf y gwelwyd tôn adnabyddus yr awdur, 'Hyfrydol' — ei unig drwydded i anfarwoldeb erbyn heddiw — wedi ei hysgrifennu ar dair erwydd.

Darpariaeth ar gyfer plant y genedl oedd cymwynas arall R.H.P., sef casgliad yn dwyn y teitl *Y Fasged Gerddorol* (1846) — 'Crynodeb o egwyddorion cerddoriaeth yn bennaf at wasanaeth plant'. Gwelais gopi o'r ail argraffiad, ond fe gafwyd trydydd argraffiad hefyd ('gydag ychwanegiad', tt.24), wedi ei argraffu dros yr awdur gan Griffith Jones, y Bala, ym 1850.

Ym 1861, dan y teitl *Asaph Bach*, cafwyd argraffiad newydd o'r gwaith hwn, wedi ei helaethu a'i ddiwygio gan yr awdur (24.tt eto), a'i gyflwyno ganddo i'r *Band of Hope*. Dwy geiniog oedd pris copi o'r ail argraffiad, gyda'r gwaith wedi ei rannu'n ddeg o wersi (yr erwydd, arwyddnodau, trawsgyweiriant, ymarferiad y llais, a.y.y.b.), a'r awdur wedi dewis arddull gwbl unigryw i ddysgu plant y genedl trwy eu cyfarch mewn penillion syml. Yn yr ail wers, er enghraifft, wrth drafod 'Nodau a'u Gorphwysion', ceir y pennill canlynol i'r plant ei ganu:

Y llinell gyntaf elwir E,
Yr ail yw G. yn ddiau,
Y drydedd B, bedwaredd D,
A'r bumed F yn glau;
Y cyfrwng cyntaf elwir F,
Ac ar yr ail mae A,
A'r trydydd ydyw C yn siwr,
A'r pedwerydd E — nos da!'

Ar dudalen olaf y clawr fe geisia'r awdur ateb y cwestiwn, 'Pa fodd y ceir diwygiad yn y canu?' ac fe wna ambell sylw y byddai o fudd i'r eglwysi heddiw ei ystyried yn ddwys!

Adolygir yr argraffiad newydd o'r gyfrol fechan hon ar dudalennau *Y Cerddor Cymreig* am fis Gorffennaf 1861, ac yna mewn hysbyseb yn rhifyn y mis dilynol o'r un cylchgrawn, ceir geirda i'r *Asaph Bach* gan y cerddor adnabyddus 'Eos Llechid' (Y Parchedig Owen Davies), ynghyd ag anogaeth 'i bwrcasu copi yn ddi-oed'!

Ar wahân i'w lafur yn darparu'r ddau gasgliad uchod, cyfansoddodd a threfnodd RHP hefyd lawer o donau i gasgliadau tonau eraill ei gyfnod, a diddorol i ni heddiw yw sylwi — serch na ellir ystyried mohono'n gyfansoddwr toreithiog fel y cyfryw — ei fod yn weithgar ym maes canu cynulleidfaol y genedl o flaen cyfnod gweithgarwch 'Apostolion' Cerdd megis Hafrenydd, Ieuan Gwyllt, a rhai o aelodau teulu Millsiaid Llanidloes.

Ym 1880, ac yntau bron ar fin cyrraedd oed yr addewid, fe symudodd R.H.P. o'r Bala i Dreffynnon, ac yno bu yng ngwasanaeth y *Welsh Flannel Manufacturing Company* hyd at ei farw ym mis Ionawr 1887, yn 76 oed. O bryd i'w gilydd bu amryw yn holi paham tybed y penderfynodd y cerddor gefnu ar ardal ei faboed yn hwyrddydd ei oes?

Yn rhifyn *Y Cymro* Hydref 1916, ar ôl dweud ei fod yn cofio R.H.P., awgryma O. M. Edwards fod yr hen gerddor wedi cilio i Dreffynnon gan fod ei fanc 'wedi dod i anhawster'.

Ond yn ei gopi personol o *Llyfr Tonau Cynulleidfaol* (Ieuan Gwyllt 1859) sydd heddiw ynghadw yn Adran Lawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth (Llawysgrif NLW 8241B), ceir y nodyn a ganlyn yn llaw David Lewis, Llanrhystud, uwchben tôn rhif 70, sy'n eiddo i'r hen gyfansoddwr o'r Bala: *'Bu'n ceisio ffurfio banc — lladrataodd lawer o arian y gymdogaeth — fe'i carcharwyd — mae'n awr yn byw yn Nhreffynnon, Dec 28, 1883.'*

Oherwydd y cefndir uchod, ychydig iawn o sylw a gafodd R.H.P. yn y wasg Gymreig pan fu farw ym 1887; yn gwta iawn y cyfeirir at ei farw yn rhifyn Chwefror 2, 1887, o'r *Genedl Gymreig*, er enghraifft. Ond bu ei gyflogwyr yn Nhreffynnon yn ofalus iawn ohono yn ystod ei waeledd olaf, yn ôl yr hanes, a hwy hefyd a aeth yn bennaf gyfrifol am gostau ei angladd ym mynwent Eglwys Pedr Sant, Treffynnon.

Ond ni chafodd yr hen gerddor o'r Bala ei lwyr anghofio ar ôl hyn, oherwydd ym 1904 — dros 17 o flynyddoedd ar ôl ei farw — dodwyd carreg ar ei fedd, yn bennaf trwy gyfrwng tanysgrifiadau cyhoeddus ac ymdrechion Pwyllgor Cymanfa Ganu M.C. Dosbarth Treffynnon.

Rwy'n cofio gweld y garreg honno yn fuan ar ôl imi symud yn athro i Dreffynnon yn niwedd y pedwardegau. Yn anffodus, collwyd y maen hwnnw am byth pan gliriwyd mynwent Eglwys Sant Pedr gan Gyngor Treffynnon yn ystod Mawrth/Ebrill 1964, er i rai ohonom ymbil mewn da bryd ar i'r awdurdodau drefnu i'w ddiogelu. Trwy ddiofalwch, fe gollwyd cyfle arall i dalu parch i goffadwriaeth un o'n prif gymwynaswyr cerdd cyn 1850, ac i gofio cymwynasau gŵr a ymdrechodd i gyfoethogi ein canu mawl mewn cyfnod o dlodi cerddorol dybryd yn hanes y genedl.

## RHESTR RHODDION

Derbyniwyd yn ddiolchgar y rhoddion canlynol i gronfa'r Gymdeithas:

Mrs H. Morris, Pwllheli, £1
W. H. James, £1
Richard Evans, Dolgellau, £1
Islwyn Jones, Caerdydd, £5
Iolo Francis Roberts, Newcastle, £5
Rhodri Dafis, Abertawe, £10
Trefor Edwards, Parc, Y Bala, £5
Olwen Llywelyn, Llanrug, £5
S. I. Wicklen, Conwy, £5
Emyr Evans, Cheltenham, £2.50
W. Morris, Llanberis, £5
J. Gwyn Griffiths, £5
Mrs E. Wynne-Woodhouse, Dinbych, £5


## AR WERTH

**Anerch i Ieuenctyd Cymru**
(1857) 459tud.: £9

**Y Cyfarwyddyd Profedig i bob Perchen Anifeiliaid**
gan John Davies (1837): £15

**Llawlyfr y Llais**
gan D. W. Lewis (1893): £10

**Mawr a Bach**
gan Gwilym Owen (1936): £5

**Seryddiaeth a Seryddwyr**
gan Silas Evans (1946): £10

Cysyllter â:
**(01678) 540652**